

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG CYNGOR SIR CEREDIGION

## 2025/2026

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Tabl Cynnwys


Y Gymraeg yn Ngheredigion ... 3

Uchafbwyntiau: 2025-2026 ... 4

Y Gymraeg - i'r Cyhoedd ... 6

Hunan asesu gan Swyddogion Arweiniol a Rheolwyr Corfforaethol ... 6

Holiadur Hunanasesu Safonau'r Gymraeg ... 7

Pwyllgor Iaith ... 7

Tîm Cynnal y Cardi – Grantiau ... 7

Cyfryngau Cymdeithasol ac e-Newyddlen Misol y Cyngor ... 8

Hyrwyddo Gwasanaethau Sefydliadau Cyhoeddus ... 8

Asesiadau Effaith ... 9

Cyfieithu ... 10

Cwynion ... 10

Y Gymraeg – i'r Gweithle ... 10

Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg ... 10

Gweithgor y Gymraeg ... 11

Hyfforddiant Mewnol ... 11

Rhaglen Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion ... 12

Cyrsiau Sabothol Canolradd a Chwrs Dwys Sylfaen i Gynorthwywyr Dosbarth ... 12

Gweithio mewn Partneriaeth ... 13

Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn Fewnol ... 14

Y Gymraeg – i'r Gymuned ... 14

Partneriaethau Mewn Cymuned ... 14

Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gymuned ... 15

Taflen Ffeithiau ... 16

Camu i'r Dyfodol 2026-2027 ... 17

Atodiadau ... 19

# Y Gymraeg yn Ngheredigion

**“Rydym am weld y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir.”**

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion ar weithredu Safonau’r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif bwrpas yr adroddiad yma yw i rannu gwybodaeth ar sut aethom ati i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg yma yng Ngheredigion rhwng 2025-2026.

Mae’r adroddiad yn gyfle i ni edrych yn ôl a myfyrio dros y flwyddyn a fu ac adrodd ar sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio’r Iaith. Pinacl y flwyddyn oedd ein Cynhadledd Iaith gyntaf, dyma’r gynhadledd gyntaf o’i fath i’w chynnal gan y Cyngor yng Ngheredigion.

Roedd uchafbwyntiau’r flwyddyn adrodd yn cynnwys;

- Lansio tudalen y Gymraeg ar wefan y Cyngor, er mwyn sicrhau hygyrchedd gwybodaeth am y Gymraeg.
- Adolygu prosesau arfarnu i gael gwell dealltwriaeth o lefelau ALTE wrth ddechrau ar y broses o newid ALTE i CEFR.
- Parhau i weithio’r gyda Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth i ymchwilio i effeithiolrwydd y Fframwaith Iaith a’n dulliau o fonitro gallu ieithyddol staff y Cyngor.
- Creu Hyfforddiant Safonau’r Gymraeg ar gyfer y sesiynau anwytho corfforaethol
- Cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sy’n mynychu gwersi Cymraeg ffurfiol gyda ‘Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith’ wrth iddyn nhw ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.

Mae 2026-2027 yn argoeli i fod yn flwyddyn gynhyrchiol a phrysur unwaith eto wrth i Gyngor Sir Ceredigion fod yn ran o Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026, mabwysiadu Fframwaith Siarter Twf ac hefyd adolygu ein Polisi Defnydd Mewnol o’r Gymraeg.

# Uchafbwyntiau: 2025-2026

## Dim Cwynion

Ni dderbyniwyd un cwyn ynglŷn a'r iaith Gymraeg yn 2025/26

## Grant Gŵyl Dewi

Derbyniwyd grant o £17,600 i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngheredigion yn ystod Dydd Gŵyl Dewi

## Tudalen y Gymraeg

Lansiwyd tudalen y Gymraeg ar wefan y Cyngor

## Pecyn Iaith Gwaith

Crëwyd Pecyn Iaith Gwaith i'r gweithle

## Rhaglen Cymraeg Gwaith

Cynhaliwyd mwy o ddosbarthiadau yn 2025/26 nag erioed o'r blaen

## Cynhadledd Iaith

Cynhaliwyd Cynhadledd Iaith gyntaf Ceredigion

# Uchafbwyntiau 2025-2026

Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw i arddangos ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg gan dynnu sylw at uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn nodi datblygiadau i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg a chynyddu ein defnydd mewnol o'r iaith.

**Dim Cwynion**
Mae'n bwysig nodi na chafwyd yr un gwyn i Adran Gwynion Cyngor Sir Ceredigion am unrhyw beth yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Derbyniwyd grant Gŵyl Dewi i Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngheredigion**
Fe alluogodd y grant i'r Cyngor Sir Ceredigion i sefydlu gŵyl newydd, arloesol ac integredig yn cryfhau'r berthynas rhwng cymunedau, yn hybu'r Gymraeg ac yn ehangu cyfleoedd creadigol ar draws y sir. Yn ystod y prosiect llwyddwyd i sicrhau ymgysylltu cymunedol ehangach, i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig, i arloesi gan ddefnyddio dulliau newydd o ddathlu Gŵyl Dewi ac i gael effaith gadarnhaol ar bartneriaethau ac arferion gwaith. Darllenwch mwy am ein dathliadau Gŵyl Dewi 2026 yma - **Ceredigion yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda Gŵyl Ffrinj ar draws y sir - Cyngor Sir Ceredigion**

**Lansiwyd Tudalen y Gymraeg ar wefan y Cyngor**
Mae 'Gwefan y Gymraeg' am sicrhau bod holl drigolion Ceredigion yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.
Wrth bori drwy'r wefan mae modd dysgu am y cyfleoedd sydd ar gael i blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, yn y gwaith, mewn busnesau ac mewn gweithgareddau hamdden. Dyma ddolen i'r wefan **Yr Iaith Gymraeg yng Ngheredigion - Cyngor Sir Ceredigion**

**Crëwyd Pecyn Iaith Gwaith i'r gweithle**
Mae'r Pecyn Iaith ar Waith yn adnodd dwyieithog ar gyfer dysgwyr Cymraeg, siaradwyr llai hyderus a Chymry Cymraeg gweithle Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r pecyn yn gymorth i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod diwrnod gwaith. Mae'r pecyn hwn wedi'i greu mewn cydweithrediad â Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith y Cyngor a CERED. **Pecyn Iaith ar Waith**

**Mwy o ddosbarthiadau Cymraeg Gwaith nag erioed o'r blaen**
Gwelir bod y rhaglen Cymraeg Gwaith wedi darparu mwy o ddosbarthiadau yn 2025/2026 nag erioed o'r blaen. Paratowyd a darparwyd cwrs peilot newydd sef 'Cymraeg Proffesiynol' gan y Swyddog Hyfforddi. Cynhaliwyd cwrs Blasu hefyd ar gyfer staff cartref gofal Hafan y Waun, ynghyd â sesiynau sgwrs galw-i-mewn anffurfiol o dan arweiniad y

Swyddog Hyfforddi, yn ystod y cyfnod adrodd. Bwriedir parhau â'r ddarpariaeth hon hefyd yn 2026/2027.

**Cynhaliwyd Cynhadledd Iaith Gyntaf Ceredigion**

Ar 30ain o Fehefin 2025, daeth dros 60 o bobl o wahanol sefydliadau a mudiadau o bob cwr o Gymru i Gynhadledd Iaith Ceredigion yn Theatr Felinfach. Gyda chefnogaeth Fforwm Iaith Ceredigion sef Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion a nawdd trwy gynllun ARFOR, cafwyd diwrnod llwyddiannus tu hwnt.

Am fwy o wybodaeth dilynwch y ddolen : [Yr iaith Gymraeg a dyfodol dwyieithog yn cael lle canolog yng Nghynhadledd Iaith Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion]

# Y Gymraeg - i'r Cyhoedd

Yn yr adran hon amlygir ymrwymiad ac ymdrech barhaus Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd. Yn unol â'i ymrwymiad i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg, mae Datganiad Polisi, sydd ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor yn hysbysu'r cyhoedd bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor; trwy'r post, gwasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar lein. Gallwn barhau i nodi fod pob un o swyddogion ein Gwasanaeth CLIC i Gwsmeriaid yn medru siarad Cymraeg. Mae hyn felly yn rhoi ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd o'r man cychwyn.

## Hunan asesu gan Swyddogion Arweiniol a Rheolwyr Corfforaethol

Fel pob blwyddyn, rydym yn parhau i gymryd camau hunan-reoleiddio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau o dan drefn Safonau'r Gymraeg wrth edrych nôl dros y flwyddyn a fu, 2025-2026. Cafwyd adolygiad i ystyried cydymffurfiaeth ein gwasanaethau â'n dyletswyddau iaith Gymraeg. Eleni, rhannwyd yr holiadur gyda Rheolwyr Corfforaethol yn ogystal a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol er mwyn creu darlun ehangach o gydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor. Wrth ystyried uchafbwyntiau dangosir cynnydd cadarn wrth wreiddio'r Gymraeg mewn gwaith bob dydd, gyda defnydd eang mewn cyfarfodydd, galwadau a gohebiaeth. Mae diwylliant cefnogol a hyfforddiant wedi cryfhau hyder a sgiliau staff, tra bod mwy o adnoddau dwyieithog, prosiectau a mentrau wedi gwella gwelededd yr iaith. Yn gyffredinol, mae ymrwymiad cryf wedi sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol o ddarpariaeth y gwasanaethau. Ar y llaw arall mae'r prif heriau'n cynnwys diffyg hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â phwysau amser a llwyth gwaith sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Mae capasiti anghyson o siaradwyr, heriau technegol, a gweithio o bell hefyd yn effeithio ar ddefnydd cyson o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

## Holiadur Hunanasesu Safonau'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg

Yn ystod Gwanwyn 2026 ymatebwyd i 'Holiadur Hunanasesu Safonau'r Gymraeg' y Comisiynydd sy'n gofyn i ni nodi ein hasesiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â rhai o'r gofynion statudol sydd arnom mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n ofynnol darparu'r wybodaeth hon, yn unol â'r safonau yn ymwneud â Materion Atodol. Bwriad yr holiadur yw casglu gwybodaeth am gydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Mae'n rhoi cyfle i ni fel Cyngor Sir i asesu lefel ein cydymffurfiaeth â safonau gan nodi canfyddiadau.

## Pwyllgor Iaith

Mae'r grŵp yn cyfarfod tair gwaith y flwyddyn i rannu gwybodaeth, i wneud penderfyniadau, i gymeradwyo dogfennau ac i ystyried sut mae hyrwyddo a datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn ystod ein pwyllgorau trafodwyd amryw o faterion gan gynnwys:

- Gwella cyfathrebu gydag aelodau etholedig wrth rannu gwybodaeth am ddatblygiadau'r Gymraeg
- Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg
- Sgiliau Cymraeg y Gweithlu Corfforaethol
- Diweddariad ar Bolisi Enwi Strydoedd a Thai
- Diweddariad ar y CSCA
- Diweddariad ar ddefnyddio'r fframwaith sgiliau
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl
- Adroddiad blynyddol gan CERED a Theatr Felinfach
- Hybu hyder a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn y gweithle
- Proffil Iaith Ceredigion
- Darpariaeth gwefannau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion
- Adroddiad Hyfforddiant Dysgu Cymraeg yn y gweithle

## Tîm Cynnal y Cardi – Grantiau

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi busnesau a chymunedau i ddarparu atebion cynaliadwy ac arloesol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu ardaloedd gwledig, mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu Cronfa Cynnal y Cardi a ariennir gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU. Mae pob aelod o Dîm Cynnal y Cardi yn siaradwyr Cymraeg ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu grantiau i grwpiau a sefydliadau ar draws Ceredigion. Mae'r ddwy gronfa oedd ar waith dros y flwyddyn adrodd yn cynnwys **Cronfa Cyfalaf Busnes Cynnal y Cardi a Chronfa Gymunedol Cynnal y Cardi.** Mae ffurflenni cais y grantiau yma yn gofyn y cwestiwn ynglŷn â sut fydd y prosiect yn buddio'r Gymraeg gan gynnwys sicrwydd bod defnydd a gwelededd y Gymraeg yn cynyddu trwy'r prosiect.

## Cyfryngau cymdeithasol ac e-Newyddlen misol y Cyngor

Dros y flwyddyn adrodd cymerwyd camau gweithredol i **hyrwyddo ein sianelu Cymraeg**. Ceir **llun clawr dwyieithog** sy'n nodi ein ffrwd Cymraeg a Saesneg ar ein sianeli Facebook.




Derbyniodd 1364 o breswylwyr Ceredigion e-Newyddlen misol y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg ddiwedd mis Mawrth 2026 . Roedd 2148 wedi derbyn fersiwn Saesneg, felly nid yw'r bwlch rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn fawr o'i gymharu gyda'r gwahaniaeth rhwng y nifer sy'n cyrchu gwybodaeth trwy'r Cyfryngau Cymdeithasol yn Saesneg o'i gymharu gyda'r Gymraeg.




Gosodwyd **tag (@Cyngor Sir Ceredigion) ar ein negeseuon Saesneg i ddarllen y neges yn Cymraeg.** Mae negeseuon rheolaidd wedi diweddaru a pinio ar dudalennau Cyngor Sir Ceredigion i nodi bod modd ddilyn ein sianeli Cymraeg a Saesneg.

## Hyrwyddo Gwasanaethau Sefydliadau Cyhoeddus

Cafwyd sylw penodol yn dilyn cais am arfer da gan Gomisiynydd y Gymraeg. Dewiswyd 3 gwasanaeth sy'n ganolog i brofiad y cwsmer a'r unigolyn sydd ar gael yn Gymraeg i breswylwyr yng Ngheredigion. Crëwyd proffil yn amlygu'r tri gwasanaeth hynny ac mae hyn i'w weld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Dilynwch y ddolen i weld y proffiliau [Hyrwyddo Gwasanaethau Sefydliadau Cyhoeddus]

**Ap Ceredigion Actif -** Ceredigion Actif

**Ap Ceredigion Actif** yw eich cydymaith ffitrwydd yng Ngheredigion! Mae'n cynnwys gwybodaeth ar sut i reoli aelodaeth, gwybodaeth am weithgareddau a dosbarthiadau, ynghyd â chymorth ar lesiant.

**Fy Nghyfrif -** Croeso i Fy Nghyfrif - Cyngor Sir Ceredigion

Mae **Fy Nghyfrif** yn wefan ddiogel lle gallwch gadw golwg ar unrhyw geisiadau rydych wedi'u gwneud gyda Chyngor Sir Ceredigion. Gallwch greu ymholiadau a monitro datblygiadau, gweld hanes eich ceisiadau a'ch ymholiadau a llawer mwy.

**Gweddarlledu Cyfarfodydd Pwyllgorau -** **Cyngor Sir Ceredigion**

Cynhelir pob cyfarfod mewn dull hybrid. Gellir gwylio **gwe-ddarllediadau a recordiadau o gyfarfodydd y pwyllgorau** canlynol yn Gymraeg neu yn Saesneg ar wefan y Cyngor.

## Asesiadau Effaith

Erbyn hyn mae'r Swyddog Polisi Iaith a'r Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant wedi adolygu a chryfhau prosesau er mwyn sicrhau bod cydweithio rhwng Gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf wrth drafod Asesiad Effaith Integredig gan gynnwys paratoi cwestiynau enghreifftiol am y Gymraeg i'w cynnwys yn yr Asesiad Effaith. Cynhelir Cyfarfodydd Cychwynnol adeg ymgynghoriadau i drafod amryw o faterion ar ddechrau'r ymgynghoriad sy'n cynnwys staff y gwasanaeth perthnasol, Tîm y Wasg, Swyddog Cynhwysiant a'r Swyddog Iaith. Rhoddir gwelededd amlwg i'r Gymraeg ac effaith ar y Gymraeg yn y cyfarfod hwn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth briodol a chydwybodol yn cael ei roi i unrhyw effaith posibl ar y Gymraeg.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn Awdurdod Trwyddedu ac rydym yn adolygu ein Datganiad o Bolisi Trwyddedu bob 5 mlynedd. Mae Polisi Trwyddedu Cyngor Sir Ceredigion yn cwmpasu llefydd fel tafarndai a bariau, a'r rhan fwyaf o leoliadau sy'n gwerthu alcohol, yn gweini bwyd poeth yn hwyr yn y nos, neu'n cynnal adloniant fel cerddoriaeth fyw, dawnsio, ffilmiau, neu rai digwyddiadau chwaraeon. Yn dilyn ymgynghoriad ar gyfer adroddiad y cabinet/cyngor cysylltiedig cafwyd un ymateb yn cynnig y dylai holl arwyddion/hysbysiadau ac ati ar y safle fod yn ddwyieithog, fel rhan o ofynion y drwydded. O ganlyniad i'r ymateb uchod mewnosodwyd adran newydd yn y Polisi Trwyddedu yn annog; *"trwyddedwyr i ddarparu arwyddion a hysbysiadau i staff a chwsmeriaid yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Ceredigion yn cael ei chydnabod fel cymuned ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg fel ei phrif ieithoedd. Mae cynnig gwybodaeth ddwyieithog yn caniatáu i fusnesau ddarparu ar gyfer sylfaen cwsmeriaid ehangach ac yn parchu'r diwylliant a'r hunaniaeth leol."*

### Cyfieithu

Cyfieithwyd 3,947,821 gair yn ystod y flwyddyn adrodd. Yn ystod 2025-2026 cyfieithwyd cyfanswm o 266 cyfarfodydd ar y pryd.

| | 2025-2026 |
|---|---|
| Cyfarfodydd Gwasanaethau Democrataidd y cyfieithwyd ar y pryd ynddynt | **163** |
| Cyfarfodydd Llesiant y cyfieithwyd ar y pryd ynddynt | **32** |
| Cyfarfodydd Arall y cyfieithwyd ar y pryd ynddynt | **71** |
| CYFANSWM y cyfarfodydd y cyfieithwyd ar y pryd ynddynt | **266** |

### Cwynion

Wrth adolygu ein  ffeiliau cwynion, gallwn gadarnhau na dderbyniwyd unrhyw gwynion am unrhyw beth yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod 25-26.

# Y Gymraeg – i'r Gweithle

Yn yr adran hon amlygir ymrwymiad ac ymdrech barhaus Cyngor Sir Ceredigion i hyrwyddo defnydd mewnol o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy gefnogi ac annog ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith bob dydd. Wrth hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle gallwn sicrhau ymdrech barhaus i godi statws y Gymraeg yn fewnol.

### Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Hunaniaeth ddwyieithog sydd i'r Cyngor hwn – sef Cymraeg a Saesneg. Teitl y Cyngor yw Cyngor Sir Ceredigion County Council. Ni chaiff yr arwyddair sef "Golud Gwlad Rhyddid" ei gyfieithu.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddatblygu brandiau / mentrau sydd â'r Gymraeg yn ganolog iddo, gan fathu sloganau (straplines) pwrpasol, wedi'u teilwra yn hytrach na chyfieithiadau llythrennol e.e logo Caru Ceredigion. Mae pob arwydd mewnol ac allanol a osodir gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Rydym eisoes wedi dechrau sgyrsiau gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddiwygio ein polisi mewnol yn ystod 2026-2027 er mwyn ehangu'r cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae angen newid ymagwedd er mwyn sicrhau bod y polisïau

hyn yn arwain at newid ymarferol a mesuradwy. Rydym wedi dechrau adolygu a chryfhau polisïau presennol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan eu cymharu â'r modelau polisi newydd sy'n cael eu datblygu gan Comisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn trafodaethau gyda swyddfa'r Comisiynydd, rydym yn anelu at Lefel Weithredu Arloesol gan ein bod yn awyddus i gymryd cam ymlaen drwy weinyddu'n fewnol yn Gymraeg lle bo hynny'n bosibl.

## Gweithgor y Gymraeg

Sefydlwyd Gweithgor y Gymraeg ym mis Hydref 2024. Mae'r gweithgor yn ymdrin ag amryw o bynciau Adnoddau Dynol gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, hanfodion Safonau'r Gymraeg gan gynnwys heriau recriwtio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein gwersi Cymraeg Gwaith a hefyd adolygu fframwaith Iaith y Cyngor. Mae trafodaethau yn parhau yng Ngweithgor y Gymraeg gan gynnwys adolygu prosesau arfarnu i gael gwell dealltwriaeth o lefelau ALTE wrth ddechrau ar y broses o newid ALTE i CEFR a hefyd ymchwilio i effeithiolrwydd y Fframwaith Iaith a'n dulliau o fonitro gallu ieithyddol staff y Cyngor.
Mae pob Achos Busnes ar gyfer swydd wag yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Arweiniol i'w gymeradwyo. Gall y Grŵp Arweiniol benderfynu newid rhai manylion cyn cymeradwyo. Mae pob Achos Busnes yn cynnwys gwybodaeth am sefyllfa ieithyddol bresennol a chanran y siaradwyr Cymraeg o fewn y Tîm neu Adran y mae'r swydd yn perthyn iddi. Mae hynny'n cynorthwyo'r Grŵp Arweiniol i gymeradwyo anghenion ieithyddol y swydd wag.

## Hyfforddiant Mewnol

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn trefnu ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r Cyngor ac mae wedi ymrwymo i gynnal safonau'r Gymraeg. Mae hyfforddiant/cyrsiau'n cael eu hyrwyddo drwy'r system fewnrwyd sydd ar gael yn yr iaith a ddewiswyd a thrwy Gylchlythyrau Dysgu a Datblygu dwyieithog, Gwefan a 'Sianel Timau Tîm Ceredigion'. Dros y flwyddyn ddiwethaf cafwyd cynnydd yn nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigir . Fodd bynnag, mae nifer y cyrsiau a ganslwyd oherwydd archebion staff annigonol yn parhau i fod yn her. Er mwyn sicrhau bod staff yn gallu mynychu hyfforddiant yn yr iaith o'u dewis, mae rhai cyrsiau wedi cael eu cyflwyno gyda 'chymhareb Hyfforddwr i Ddysgwr' isel iawn, er enghraifft un Hyfforddwr yn cyflwyno i 2 Ddysgwr. Mae Sesiynau Anwytho Corfforaethol wyneb yn wyneb wedi ail-ddechrau a cheir lle dyledus i gyflwyno Safonau'r Gymraeg i weithwyr newydd o fewn y sesiwn.

Gweithredwyd System Rheoli Dysgu (SRhD) newydd 'Thinqi' yn gynnar yn 2026 ac mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gael drwy Thinqi yn y Gymraeg a'r Saesneg ac maent yn cynnwys y modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae lansio 'Thinqi' a'r gweithgareddau hyrwyddo a'r sesiynau cymorth a gynigir wedi arwain at gynnydd yn y gyfradd gwblhau gyffredinol y modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Gymraeg.

## Rhaglen Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion wedi profi'n llwyddiant mewn sawl ffordd ac wedi darparu mwy o ddosbarthiadau yn 2025/2026 nag erioed o'r blaen. Mae Tiwtor Cymraeg Gwaith y Cyngor yn eistedd o fewn y tîm Dysgu a Datblygu ac mae'n parhau i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg yn amrywio o 'Ddechreuwyr i Uwch' ar gyfer gweithlu'r Cyngor. Mae'r niferoedd yn iach ar draws y lefelau dysgu. Rhedwyd y cyrsiau hyn ar draws y flwyddyn academaidd, gydag aelodau staff yn mynychu dosbarthiadau wythnosol o dan arweiniad y Swyddog Hyfforddi.

Mae'r rôl hon hefyd yn cefnogi amrywiaeth o fentrau hyrwyddo yr iaith Gymraeg ar draws y Cyngor. Er mwyn cefnogi'r sector gofal cymdeithasol, mae rhaglen Gymraeg pwrpasol o 3 sesiwn sy'n cefnogi'r 'Cynnig Gweithredol/Mwy na Geiriau yn unig' ar gael i ddarparwyr gofal cymdeithasol allanol yn rhanbarth Gorllewin Cymru. Mae llwyddiant y rhaglen hon wedi arwain at ei hymgorffori yn y cynnig hyfforddiant blynyddol. Mae'r Tiwtor Cymraeg Gwaith hefyd wedi parhau i gyflwyno sesiynau Cymraeg pwrpasol i staff yn Hafan y Waun, un o gartrefi preswyl y Cyngor.

Paratowyd a darparwyd cwrs peilot newydd, 'Cymraeg Proffesiynol' gan y Swyddog Hyfforddi. Amcan y cwrs yma yw i arfogi staff sydd wedi cwblhau lefel Uwch 3, neu'n siaradwyr Cymraeg rhugl i ddefnyddio'u Cymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol. Profodd y peilot yn llwyddiant, a bwriedir ehangu'r ddarpariaeth hon yn 2026/2027. Nodir bod 6 wedi dewis cofrestru ar gyfer yr arholiadau Dysgu Cymraeg CBAC a gynhelir yn haf 2025/2026 ar sail eu hastudiaethau eleni.

## Cyrsiau Sabothol Canolradd a Chwrs Dwys Sylfaen i Gynorthwywyr Dosbarth

Bu'r cwrs dwys Sylfaen i gynorthwywyr dosbarth yn llwyddiant ysgubol, gyda **phresenoldeb o 100% drwy gydol y cwrs**. Roedd pob aelod o'r grŵp yn frwdfrydig iawn ac yn weithgar yn y sesiynau, gyda chynnydd amlwg yn eu sgiliau iaith dros gyfnod byr iawn.

Gwnaed ymweliad gan diwtor y gweithlu addysg i arsylwi ar ymarfer yn y dosbarth, a chadarnhawyd bod yr hyn a ddysgwyd yn y gwersi yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol ac yn hyderus ar lawr y dosbarth. Roedd yn amlwg fod y cynorthwywyr yn ymroi i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol gyda'r disgyblion, ac yn manteisio ar bob cyfle i gynyddu defnydd beunyddiol o'r iaith.

Mae pob cyfranogwr wedi ymrwymo i sefyll **arholiad Mynediad CBAC** yn yr haf, gan adlewyrchu eu hymroddiad a'u hyder cynyddol yn y Gymraeg. Yn ôl adborth gan y grŵp, mae pawb yn dweud eu bod bellach yn defnyddio **llawer mwy o Gymraeg yn y dosbarth** ers cwblhau'r cwrs, gyda manteision clir i'r disgyblion a'r ysgol yn ehangach.

| Cynorthwy-wyr Dosbarth Ysgolion T2 | |
|---|---|
| Lefel dwys Sylfaenol ( wyneb yn wyneb gyda chefnogaeth tiwtor y gweithlu Addysg ) – 60 awr | 9 cynorthwy-ydd Dosbarth Dysgu Sylfaen ysgolion T2 (**ariannwyd i'w rhyddhau o'r ysgol trwy grantiau Cymraeg mewn Addysg)** |
| **Gwasanaeth ôl ofalaeth a modeli ar lawr y dosbarth** | |
| Lefel Sylfaenol ( wyneb yn wyneb ar lawr dosbarth, sesiynau unigol x 2 i'r 9 ymarferydd oedd ar y cwrs uchod | 9 cynorthwy-ydd Dosbarth Dysgu Sylfaen ysgolion T2 |
| **Cwrs Gloywi** | |
| Cwrs 2 ddiwrnod i ymarferwyr dosbarth | 6 ymarferydd o Ysgolion Uwchradd y Sir (ariannwyd i'w rhyddhau gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg |
| **Cwrs Sylfaen** | |
| Lefel Sylfaenol wyneb yn wyneb | 1 Pennaeth ac 1 cynorthw-ydd Dosbarth (gwneud yn oriau personol, yn syth ar ôl ysgol) |
| **Cwrs Uwch 2** | |
| Cwrs lefel uwch 2 (wyneb yn wyneb) | 4 o ymarferwyr (gwneud yn oriau personol, yn syth ar ôl ysgol) |
| **Sabothol** | |
| Uwch | 1 athro Ysgolion T2 |
| Sylfaen Tymor 1 | 2 athro |
| Canolradd Tymor 2 | 2 athro |
| **Cymraeg yn y Cartref – Rhieni Ysgolion T2** | |
| Blasu | 1 |
| Mynediad 1 | 46 |
| Sylfaen 1 | 14 |
| Canolradd | 7 |
| Uwch 1 | 9 |

## Gweithio mewn Partneriaeth

**RHWYDIAITH / DEDDF / Rhwydwaith Swyddogion Iaith y Gogledd** – Mae'r cyfleoedd i gwrdd â swyddogion Iaith cenedlaethol ac yn rhanbarthol yn amhrisiadwy. Mae'r sesiynau yma yn gyfle i rannu arfer da ac i drafod heriau

**Comisiynydd y Gymraeg** - Bu Ceredigion Actif sydd â chyfrifoldeb am arwain ar chwaraeon a darpariaeth hamdden o fewn Cyngor Sir Ceredigion yn cydweithio gyda Comisiynydd y Gymraeg i gynhyrchu fideo fydd yn cael ei ryddhau yn ystod wythnos y Cynnig Cymraeg 2026.

### Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn Fewnol

Rydym yn parhau gyda'n cylchlythyr mewnol misol #Gwena. Mae'r e-newyddlen yma yn ddolen gyswllt rhwng Tîm Diwylliant y Cyngor, Huw Owen (Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith) a dysgwyr Cymraeg, siaradwyr Cymraeg llai hyderus a Chymry . Mae #Gwena wedi esblygu dros y blynyddoedd ac yn cynnwys gwybodaeth, podlediadau, erthyglau, cerddoriaeth, calendr o ddigwyddiadau amrywiol sydd yn hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion. Yn ystod 2025-2026 cyfrannodd y Swyddog Hyfforddi at #Gwena mewn tair prif ffordd. Lluniwyd cyfres o fideos ac adnoddau addysgiadol ar gyfer pob rhifyn yn trafod agweddau ar ramadeg, hanes a chymdeithaseg y Gymraeg, gan gynnwys cydweithrediad llwyddiannus gyda Llyfrgelloedd Ceredigion i ddathlu statws Aberystwyth fel Dinas Llên UNESCO. Cynhaliwyd cyfweliadau â dysgwyr Cymraeg Gwaith fel rhan o'r gyfres 'Ysbrydoliaeth y Mis', gan gynrychioli ystod o lefelau ac adrannau, ac fe gyfrannwyd hefyd at wythnos Defnyddia dy Gymraeg 2025 drwy fideo poblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol, a lwyddodd i ddathlu ac ysbrydoli dysgwyr wrth godi eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus.

# Y Gymraeg – i'r Gymuned

Yn yr adran hon amlygir ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg partneriaethau ac yng nghymunedau Sir Ceredigion. Gwneir hyn drwy ein Fforwm Iaith,  CERED - Menter Iaith Ceredigion a thrwy weithgareddau amryw wasanaethau o fewn ein cyngor sir  . Mae ymdrech barhaus i sicrhau mai Cymraeg yn brif gyfrwng y gweithgareddau a drefnir, gan greu cyfleoedd naturiol i bobl ifanc a'r gymuned ehangach i ddefnyddio'r Iaith.

### Partneriaethau mewn cymuned

**Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion** - Mae 88 aelod ar y fforwm gan gynnwys nifer o aelodau newydd, Merched y Wawr, Cymraeg i Blant, Cyngor Llyfrau Cymru  a Chwmni Theatr Arad Goch. Mae'r fforwm Iaith yn parhau i fonitro Strategaeth Hybu'r Gymraeg drwy flaenoriaethu'r camau gweithredu.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** –_Yn ystod y flwyddyn adrodd fe gafwyd sesiwn sbotolau yn ystod un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn rhannu arferion da 'Yr Iaith Gymraeg Ceredigion'.

**"British Cycling" – Beicio Prydeinig** Yn dilyn cydweithio rhwng Cyngor Sir Ceredigion a British Cycling (Beicio Prydeinig) yn 2025 mae mwy o Gymraeg i'w weld ar wefan British Cycling (Beicio Prydeinig). Yn ystod y ras cyhoeddwyd hysbysiadau *Cau Ffyrdd* yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn  gyntaf ac mae'r mapiau yn ddwyieithog hefyd.

Yn ogystal, roeddent wedi trefnu fod Gruff Lewis, beiciwr rasio ffordd yn sylwebu'n fyw ar y rasys o gwmpas y dre, ac fe wnaed hyn yn  ddwyieithog. Fe wnaeth Gruff Lewis nodi pa

mor falch oedd e i gael sylwebu'n Gymraeg a'i fod yn meddwl falle taw dyma'r tro cyntaf i'r BBC gael sylwebaeth ddwyieithog.

**ARFOR** - Diolch i gyllid ARFOR am y cyfle i gynnig y sesiwn "Ymwybyddiaeth Iaith a Chryfhau Defnydd o'r Gymraeg" i fyfyrwyr Gofal Plant Coleg Ceredigion. Roedd hwn yn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith feirniadol wedi ei deilwra ar gyfer myfyrwyr Gofal Plant Lefel 2 a 3. Roedd y myfyrwyr yn gymysgedd o siaradwyr Cymraeg a rhai oedd yn fwy newydd i'r Gymraeg. Cyflwynwyd ffeithiau am y Gymraeg a pholisïau iaith sy'n berthnasol i'r maes gofal plant ac addysg ac ystyried pam bod angen i ymarferwyr gofal plant hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg.

## Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gymuned

Mae ein hymgyrchoedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn parhau er enghraifft drwy bostiadau cyson ar y cyfryngau cymdeithasol, ar Ddiwrnod Shwmae, yn ystod ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg ac ar Fawrth y Cyntaf i nodi dim ond rhai. Mae CERED, Menter Iaith Ceredigion yn parhau i ddatblygu Hapus i Siarad – cynllun sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned trwy gael sgwrs mewn busnesau bach sy'n "Hapus i Siarad" Cymraeg gyda nhw ar hyd y flwyddyn.

Yn dilyn cais gan Wasanaeth Porth Gofal rydym yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn pedwar o gartrefi preswyl Ceredigion. Mae hwn wedi bod yn llwyddiant ysgubol wrth i ni drefnu amryw o weithgareddau e.e gweithgareddau ar ddydd Miwsig Cymru ac ar ddydd Santes Dwynwen. Cynhaliwyd "Gŵyl Ffrinj Byddwch Lawen" yn ystod mis Chwefror a Mawrth a gafodd ei ariannu gan Gronfa gymorth beilot – Gŵyl Dewi 2026. Cafwyd te Cymreig er mwyn hel atgofion am ddathliadau Gŵyl Dewi'r gorffennol yn y Cartrefi Preswyl. Cynhaliwyd y sesiynau yma trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf ac fe gynigir profiad Cymraeg unigryw i'r preswylwyr wrth iddynt drafod hen arferion a straeon. Nod y prosiect oedd dod â phobl o bob oed ynghyd i ddathlu Cymreictod, creadigrwydd a thraddodiadau Ceredigion mewn ffyrdd hygyrch, cyfoes, newydd, arloesol ac ysbrydoledig. Llwyddodd "Gŵyl Ffrinj Byddwch Lawen" osod sylfeini cadarn ar gyfer rhaglen greadigol newydd ddaeth â chymunedau Ceredigion ynghyd i ddathlu'r Gymraeg, diwylliant lleol a chreadigrwydd.

Gyda chymorth grant Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru, daeth cymunedau ledled Ceredigion ynghyd i fwynhau gweithdai creadigol, perfformiadau a gorymdeithiau bywiog fel rhan o'n Gŵyl Ffrinj Byddwch Lawen. Daeth Ladis ar y Lôn â syrpreis, lliw a digon o sbri i'r dathliadau eleni! Wedi'u hysbrydoli gan gelf Ruth Jên, roedd eu perfformiadau'n wirioneddol godi calon.



# Taflen Ffeithiau

**97%**

yn cael y cyfle i ddefnyddio sgiliau Cymraeg yn ystod eu diwrnod gwaith yn ôl Arolwg staff y Cyngor, cynnydd ers y flwyddyn flaenorol

**84%**

o staff y Cyngor eisiau gwella eu sgiliau iaith Cymraeg, yn ôl arolwg Staff y Cyngor, cynnydd ers y flwyddyn flaenorol

**3,947,821**

Gair wedi ei gyfieithu

**100%**

Cofrestryddion yn siarad Cymraeg

**923.3 miliwn eiliad**


Rîl Ladis ar y Lôn wedi cyrraedd 2il fwyaf yn hanes cyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion

